WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Ms Alison Ward CBE
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Swyddfeydd y Cyngor
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 643A2013 |
| **Dyddiad** | 28 Tachwedd 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **3** |

Annwyl Alison

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 9 Hydref 2013 rhoddais fy marn ar ba un a oedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae'n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ar ba un a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

### Yn fy marn i, ac ar sail gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur er bod yna le i gryfhau ei drefniadau ymhellach

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn ei adroddiad *Ein Hadroddiad Perfformiad ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2012-13: Cyflawni ein 2il Gynllun Corfforaethol* (yr Adroddiad Perfformio) cyn 31 Hydref 2013.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi'n glir sut mae wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur. Mae'r Adroddiad Perfformiad wedi'i gynllunio'n dda ac yn hawdd i'w ddilyn, gyda'r sylwadau sy'n asesu perfformiad y Cyngor yn gryno a chytbwys ym mwyafrif y meysydd.

- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella ac yn mynegi ei farn yn glir. Rwy'n nodi ffyrdd o wella'r gwerthuso hwn ymhellach isod.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn galluogi dinasyddion i ddarparu adborth neu i wneud sylwadau ar yr Adolygiad.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurir gan ddangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys adran fer ar sut mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithio ag eraill.

Wrth ddatblygu ei Adroddiad Perfformiad ar gyfer 2012-13, mae'r Cyngor wedi ymateb yn dda i'r negeseuon a gyflwynais yn fy asesiad o Adroddiad Perfformiad 2011-12 y Cyngor, a gyhoeddwyd yn fy llythyr ar 7 Rhagfyr 2012. Dyma fy arsylwadau allweddol a manylion ynglŷn â sut y gall y Cyngor wella ei Adroddiad Perfformiad ymhellach:

- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn nodi asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn erbyn y 10 Amcan Gwella a ddewisodd fel blaenoriaethau ar gyfer 2012-13. Wrth gyflwyno'r asesiad hwnnw, mae'r Cyngor nawr yn darparu casgliad cyffredinol ar ei gyfradd llwyddiant yn erbyn pob un o'r meysydd hyn am y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r farn gyffredinol hon yn dibynnu llawer ar faint o weithgareddau a mesurau a gyflawnwyd o fewn yr Amcan Gwella hwnnw dros y flwyddyn. Dylai'r Cyngor gefnogi ei asesiad cyffredinol drwy ddarparu sylwadau ychwanegol a defnyddio tystiolaeth ac enghreifftiau ehangach o'r ffordd y mae'r Cyngor a'i feysydd gwasanaeth wedi cyflawni yn erbyn yr Amcanion Gwella hyn yn ystod y flwyddyn.
- Mae Atodiad Tri yr Adroddiad Perfformiad yn nodi'r gwaith a wnaed ar brosiectau cydweithredol sylweddol y Cyngor yn ystod 2012-13 ynghyd ag asesu effaith y gwaith hwn. Mae'r asesiad o'r effaith yn edrych tua'r dyfodol i raddau helaeth ac mae angen i'r Cyngor ddatblygu hyn ymhellach i ddatgan y canlyniadau mesuradwy gwirioneddol a gyflawnwyd ac a yw'r rhain yn cydymffurfio â chynlluniau bwriedig y Cyngor.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cymharu perfformiad y Cyngor yn erbyn cynghorau eraill mewn perthynas â dangosyddion statudol a gyhoeddwyd. Mae hefyd wedi defnyddio graffiau, siartiau a thablau i ddangos ble mae mesurau wedi gwella, dirywio neu aros yr un fath, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er bod meysydd gwasanaeth unigol yn cymharu eu perfformiad yn rheolaidd trwy gyfeirio at ddata meincnodi sydd ar gael a gwybodaeth arall yn eu gweithgareddau busnes arferol, nid yw canlyniadau'r cymariaethau hyn yn cael eu cofnodi'n ffurfiol fel rhan o'r asesiad o berfformiad y Cyngor. Dylai meysydd gwasanaeth nodi'n gliriach yn eu hasesiadau perfformiad unigol sut maent wedi ystyried a defnyddio gwybodaeth gymharol ac wedi myfyrio ar arferion gorau a'r rhai sydd wedi cyflawni'n dda er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Awgrymir un cynnig newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a gyflwynais yn yr adroddiadau a'm llythyron blaenorol.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| P1 | Dylai meysydd gwasanaeth gofnodi'n ffurfiol sut maent wedi ystyried a defnyddio gwybodaeth gymharol ac wedi myfyrio ar arferion gorau a'r rhai sydd wedi cyflawni'n dda er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus. |

Byddaf yn cyflawni gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi gwaith rheoli perfformiad ac adrodd am berfformiad y Cyngor dros y misoedd nesaf ac yn adrodd ar hyn, ac yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Cyngor y byddaf yn ei gyflwyno erbyn diwedd Mawrth 2014.

Yn gywir,

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Lesley Griffiths, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Non Jenkins – Rheolwr Rhanbarthol

Janet Villars – Arweinydd Archwilio Perfformiad